



Dyddiad: 15 Ionawr
2018

Annwyl Ymgynghorai

Ymgynghoriad Defra a Llywodraeth Cymru ar gynigion i fynd i'r afael â throsteddau a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff a chyflwyno cosb benodedig newydd ar gyfer y ddyletswydd gofal mewn perthynas â gwastraff

Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd i ymateb i ymgynghoriad ar gynigion i fynd i'r afael â throsteddau gwastraff a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff yn well.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd nifer o gamau i ymdrin â throsteddau gwastraff a pherfformiad gwael, er enghraifft, drwy roi pwerau newydd i reoleiddwyr, sef Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, fynd i'r afael â throsteddau gwastraff ar lawr gwlad neu roi'r pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon ar raddfa fach.

Yn 2015, gofynnodd cais am dystiolaeth am safbwyntiau ar nifer o fesurau i fynd i'r afael â throsteddau gwastraff a pherfformiad gwael ar safleoedd gwastraff. Ers hynny, rydym wedi gweithio gyda'r rheoleiddwyr a rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion i gyflwyno'r mesurau hyn yn ogystal ag eraill ac rydym nawr yn gofyn am eich safbwyntiau ar y cynigion hyn drwy'r broses ymgynghori hon.

Mae ymgynghoriad 2017 wedi'i rannu'n dair adran:

- Mae Rhan A yn canolbwyntio ar godi safon cymhwysedd gweithredwyr ym mhob safle gwastraff a ganiateir drwy atgyfnerthu galluoedd asesu a gorfodi'r rheoleiddwyr;
- Mae a wnelo Rhan B â diwygio'r gyfundrefn eithriadau gwastraff yn y system trwyddedu gwastraff;
- Mae Rhan C yn ymdrin â chyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig newydd ar gyfer trosteddau Dyletswydd Gofal cartrefi mewn perthynas â thipio anghyfreithlon.

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Ceir rhagor o wybodaeth a'r ddogfen ymgynghori yn:

<https://www.gov.uk/government/consultations/reducing-crime-at-sites-handling-waste-and-introducing-fixed-penalties-for-waste-duty-of-care>

Ymatebion

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am 10 wythnos o 15 Ionawr hyd at 26 Mawrth 2018. Rydym yn croesawu eich safbwyntiau a'ch sylwadau ar y cynigion. Mae'r ddogfen ymgynghori a dogfennau cysylltiedig ar gael ar Citizen Space (adnodd ymgynghori ar-lein) yn: <https://consult.defra.gov.uk/waste/crime-and-poor-performance-in-the-waste-sector>

- Dogfen ymgynghori
- Asesiadau Effaith
- Atodiad 13

Rhestrir cwestiynau'r ymgynghoriad yn arolwg yr ymgynghoriad ar-lein ac yn y ddogfen ymgynghori. Er mwyn cyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad, cwblhewch holiadur yr ymgynghoriad a ddarperir drwy Citizen Space (dolen uchod) erbyn 23.59pm ar 26 Mawrth 2018.

Fel arall, gallwch ddychwelyd eich ymatebion:

Drwy e-bost i:
Wastecrime.Consultation@defra.gsi.gov.uk
neu drwy ysgrifennu i:
Waste Regulation and Crime
Defra
Area 2B, Nobel House
17 Smith Square
London
SW1P 3JR

Drwy e-bost i: waste@gov.wales
neu drwy ysgrifennu i:
Yr Is-adran Dŵr, Gwastraff,
Effeithlonrwydd Adnoddau a Llifogydd
Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

Os hoffech gael copi o'r ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i
Wastecrime.Consultation@defra.gsi.gov.uk

Croesewir ymatebion yn Gymraeg.
Dylid derbyn ymatebion erbyn 26 Mawrth 2018.

Gan fod y cynigion hyn yn berthnasol i bob gweithredwr cyfleusterau gwastraff wedi'u rheoleiddio a gweithgareddau gwastraff eithriedig, bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i bob busnes ledled Cymru a Lloegr sy'n meddu ar drwydded wastraff neu eithriad gwastraff cofrestredig. Bydd y cynnig ynglŷn â chyflwyno hysbysiad cosb

benodedig ar gyfer y ddyletswydd gofal o ran gwastraff o ddiddordeb penodol i awdurdodau lleol. Fe'ch anogir felly i rannu'r ymgynghoriad hwn yn eang gydag unigolion a sefydliadau eraill y gallai'r cynigion fod o ddiddordeb iddynt. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn ategu ac yn llywio'r cyfeiriad gweithredu a'r opsiynau polisi yn y dyfodol ar gyfer mynd i'r afael â throseddau a pherfformiad cyson wael yn y sector gwastraff.

Crynodeb o'r ymatebion a chyfrinachedd

Bydd unrhyw ymatebion a anfonwch yn cael eu gweld yn llawn gan staff Defra a Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Defra a Llywodraeth Cymru hefyd yn gweld yr ymatebion er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Caiff crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ei gyhoeddi ar wefannau'r Llywodraeth yn: www.gov.uk/defra a www.llyw.cymru. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd, **ond ni** fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Mae'n bosibl y caiff gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, ei rhyddhau i'r cyhoedd ar gais, yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae'n bosibl y bydd Defra hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion i geisiadau o dan y Ddeddf a'r Rheoliadau uchod ar www.gov.uk/defra ac y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny ar www.llyw.cymru

Os hoffech i wybodaeth a ddarparwyd gennych, gan gynnwys gwybodaeth bersonol fel eich enw, gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech egluro'n glir ar ffurf ysgrifenedig pam bod angen i chi gadw'r manylion hyn yn gyfrinachol wrth ddarparu eich ymateb i'r ymgynghoriad. Os byddwn yn cael cais am y wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn warantu y gellir sicrhau cyfrinachedd bob amser. Fodd bynnag, ni fydd Defra na Llywodraeth Cymru yn caniatáu unrhyw dor-cyfrinachedd diangen nac yn gweithredu yn groes i'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ei ystyried yn gais cyfrinachedd ynddo'i hun.

Bydd Defra a Llywodraeth Cymru yn rhannu'r wybodaeth a ddarperir gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gyda thrydydd parti o ddadansoddwyr allanol a gyflogir ar contract at ddibenion dadansoddi ymatebion a darparu adroddiad.

Defra yw'r rheolydd data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych, ac mae Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra, sy'n nodi eich hawliau mewn perthynas â'r

ffordd yr ymdrinnir â'ch data personol, ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter>.

Egwyddorion Ymgynghori

Caiff yr ymgynghoriad hwn ei gynnal yn unol â'r "Egwyddorion Ymgynghori" fel y'u nodir yng nghanllawiau'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio sydd ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Sylwadau a chwynion

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, dylid eu hanfon at: Consultation Co-ordinator, 8A 8th Floor, Nobel House, 17 Smith Square, London, SW1P 3JR. Neu drwy e-bost: consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk.

Diolch am eich help yn y mater hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod.

Yn gywir

Y Tîm Rheoleiddio a Throseddau
Gwastraff
**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a
Materion Gwledig**

Polisi Rheoleiddio Gwastraff
Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru